BT Group

In partnership with AbilityNet

# Lawrlwytho apiau: Dyfeisiau Apple

**Mae ap yn dalfyriad o 'applications' – rhaglenni y gallwch eu lawrlwytho i ffôn clyfar neu gyfrifiadur llechen i'ch helpu i wneud pethau.**

**Mae yna apiau ar gyfer unrhyw beth bron: bancio, gweld beth yw'r tywydd, chwarae gemau: unrhyw beth y gallwch ei enwi, bydd ap ar ei gyfer.**

**Nid yn unig maen nhw'n ffordd wych o wneud eich bywyd bob dydd ychydig yn haws, ond gallwch hefyd fwynhau eich hoff hobïau wrth bwyso botwm, gan roi mwy o amser rhydd i chi.**

**Bydd y canllaw hwn yn dangos i chi sut i lawrlwytho apiau i ddyfais Apple (e.e. iPhone, iPad, MacBook). Os oes gennych ddyfais Android, mae gennym ganllaw ar gyfer hynny, sydd ar gael yn bt.com/seniorskills. Gallwch glicio ar y ddolen hon, neu os yw'r ddalen wedi'i hargraffu, gallwch deipio'r cyfeiriad ym mar chwilio eich porwr gwe.**

## Beth fyddwch chi'n ei ddysgu

1. Sut i chwilio am apiau
2. Sut i lawrlwytho a gosod ap o'r App Store

## Chwilio am apiau ar y siop apiau

1. I ddechrau, chwiliwch am yr eicon App Store – dyma'r siop ar-lein ar gyfer popeth sy'n ymwneud ag apiau. Mae'n edrych fel hyn.



2. Pwyswch neu cliciwch ar yr eicon App Store i'w agor.
3. Pwyswch neu cliciwch ar yr eicon chwilio.



4. Teipiwch enw'r ap rydych yn chwilio amdano (e.e. BBC Tywydd/ Weather).
5. Pwyswch neu cliciwch ar y botwm 'GET' i lawrlwytho'r ap. Gall hyn gymryd ychydig funudau.




6. Efallai y gofynnir i chi nodi eich dull adnabod Apple: dyma'r cyfeiriad e-bost a roddwyd gennych wrth osod eich iPhone.




7. Ar ôl ei lawrlwytho, bydd yr ap yn ymddangos ar eich sgrin.
8. Pwyswch neu cliciwch ar eicon yr ap i'w agor a dechrau arni. Gallai fod angen i chi greu mewngofnod ar gyfer yr ap: cofiwch ddefnyddio cyfrinair unigryw y gallwch ei gofio, ond a fyddai'n anodd i rywun arall ei ddyfalu.
9. Treuliwch rywfaint o amser yn ymgyfarwyddo eich hun gyda'r ap i ddysgu'r swyddogaethau sylfaenol.

BT Group
In partnership with AbilityNet

# Lawrlwytho apiau: dyfeisiau Apple parhad

## Dyma rai apiau y gall eich dysgwr roi cynnig arnynt:

WhatsApp

sy'n eich galluogi i anfon a derbyn negeseuon am ddim drwy'r rhyngrwyd

YouTube

sy'n eich galluogi i wylio ystod o fideos ar-lein am ddim

BBC Weather

Cadw golwg ar y rhagolygon diweddaraf

Ap y GIG

edrych ar eich cofnodion meddygol a threfnu apwyntiadau gyda'ch meddyg teulu

Google Maps

dim mwy o A-Y! Darganfyddwch lle'r ydych chi neu sut i gyrraedd lle'r ydych chi'n mynd wrth bwyso botwm.

**Gwyliwch – nid yw pob ap am ddim**
Er y gallwch lawrlwytho llawer o apiau am ddim, mae rhai yn costio arian ac mae rhai'n dechrau fel cyfnod prawf am ddim cyn y bydd angen talu tanysgrifiad. Bydd y pris bob amser yn cael ei arddangos wrth yr ap yn y Play Store. Os ydych wedi nodi eich manylion banc wrth osod eich dyfais, efallai y codir tâl yn awtomatig arnoch am lawrlwytho'r apiau hyn.
Mae llawer ohonynt hefyd yn cynnwys costau / pryniannau yn yr ap, felly cadwch olwg am y rhain: gofynnwch am gyngor ffrind/perthynas cyn lawrlwytho ap.

## Dolenni i ddysgu pellach

Nawr eich bod wedi lawrlwytho ambell ap, mae'n amser gweld beth arall gallwch chi ei wneud gyda'ch dyfais. I weld ein taflen ffeithiau ar ffrydio rhaglenni teledu neu wrando ar lyfrau llafar, gallwch chi glicio'r ddolen hon neu deipio'r cyfeiriad yn eich bar chwilio: bt.com/seniorskills.